

CYSAG Sir Gaerfyrddin

Manyleb Person ar gyfer Aelodau

Ynglŷn â'r rôl

Mae CYSAG Sir Gaerfyrddin yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM/RVE) ac addoli ar y cyd, gan gefnogi darpariaeth o ansawdd uchel i bob dysgwr. Mae aelodau'n chwarae rhan allweddol wrth gyfrannu at y gwaith hwn trwy drafodaeth, cynrychiolaeth a phartneriaeth.

Meini prawf hanfodol

- Diddordeb mewn addysg, CGM neu addoli ar y cyd.
- Mynychu cyfarfodydd tymhorol a pharatoi trwy ddarllen papurau.
- Ymrwymiad i ymgysylltu cynhwysol a pharchus ag amrywiaeth o safbwyntiau byd crefyddol ac anghrefyddol.
- Parodrwydd i gefnogi CGM o ansawdd uchel i bob dysgwr yn ysgolion Sir Gaerfyrddin
- Ymwybyddiaeth o (neu barodrwydd i ddatblygu dealltwriaeth o) CGM o fewn Cwricwlwm Cymru a chredoau a safbwyntiau byd amrywiol.
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd amrywiaeth, ecwiti a chydlyniant cymunedol.
- Y gallu i gyfrannu'n adeiladol at drafodaeth a gwneud penderfyniadau.
- Parodrwydd i gynrychioli grŵp neu safbwynt lle bo'n briodol.
- Gallu i wrando, myfyrio ac ymgysylltu'n barchus â gwahanol safbwyntiau.

Meini prawf dymunol

- Profiad mewn addysg, cymuned, ffydd neu gynrychiolaeth cred, neu lywodraethu.
- Profiad o weithio mewn pwyllgor neu rôl gynghori.
- Diddordeb mewn cyfrannu at waith ehangach SACRVE (e.e. canllawiau, gweithgorau, digwyddiadau).

Cyfrifoldebau allweddol

- Cynghori Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin ar CGM ac addoli ar y cyd.
- Cefnogi, monitro a datblygu darpariaeth yn ysgolion Sir Gaerfyrddin.
- Hyrwyddo cynrychiolaeth gynhwysol a chytbwys o gredoau a gwerthoedd.
- Gweithredu fel llysgennad i CYSAG o fewn eich cymuned neu rwydwaith proffesiynol

Gwybodaeth ychwanegol

Mae CYSAG Sir Gaerfyrddin yn ceisio aelodaeth amrywiol a chynrychioliadol, gan gynnwys unigolion o gymunedau ffydd, safbwyntiau anghrefyddol, addysg a'r Awdurdod Lleol.